FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD
CYMRU

Adroddiad ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

17 - 21 Ionawr 2005

Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodaeth cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder y defnyddiwr o ran bwyd. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol, yn bennaf, yw gorfodi cyfraith fwyd y DU sy'n gysylltiedig â diogelwch, hylendid, cyfansoddiad a labelu bwyd, bwyd a fewnforiwyd a bwydydd anifeiliaid. Yn bennaf, caiff y swyddogaethau rheoleiddio hyn sy'n perthyn i awdurdodau lleol, eu cynnig drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad llawn yn archwilio Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Fwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys y trefniadau lleol a weithredir ar gyfer archwilio busnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, samplo a dadansoddi, rheolaeth fewnol, hyrwyddo diogelwch bwyd a gweithgareddau addysgiadol. Cydnabyddir y ceir cryn amrywiaeth yn y dull a'r modd y gall awdurdodau lleol gynnig eu gwasanaethau gorfodi bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn ôl 'Y Safon', a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth yn rhan o Gytundeb Fframwaith ar Orfodaeth Cyfraith Fwyd Awdurdodau Lleol, ac sydd ar gael ar wefan yr Asiantaeth.

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr trwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da a chynnig gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd.

Mae'r adroddiad yn cynnwys peth data ystadegol, er enghraifft, data ar nifer yr arolygiadau a wnaed ar safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgareddau gorfodaeth ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU.

I'ch cynorthwyo, gellir dod o hyd i restr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio yn yr Atodiad.

CYNNWYS

		Page
1	**Cyflwyniad**	**4**
	Rheswm am yr Archwiliad	**4**
	Cwmpas yr Archwiliad	**4**
	Cefndir	**4**
2	**Crynodeb Gweithredol**	**8**
	Canfyddiadau'r Archwiliad	
3	Trefnu a Rheoli	**9**
4	Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd	**11**
5	Swyddogion Awdurdodedig	**12**
6	Cyfleusterau ac Offer	**13**
7	Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**15**
8	Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd	**19**
9	Egwyddor yr Awdurdod Cartref	**20**
10	Cyngor i Fusnesau	**21**
11	Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**22**
12	Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**23**
13	Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd	**25**
14	Digwyddiadau Diogelwch Bwyd	**27**
15	Gorfodaeth	**29**
16	Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu	**31**
17	Cwynion am y Gwasanaeth	**33**
18	Cysylltiad â Sefydliadau Eraill	**34**
19	Monitro Mewnol	**35**
20	Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd	**36**
21	Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	**37**
	Atodiad	
A.	Geirfa	**39**

1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau'r archwiliad o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth. Mae copïau caled ar gael o Lyfrgell yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn Aviation House, 125 Kingsway, Llundain WC2B 6NH, Ffôn: 020 7276 8181. Mae'r rhain yn destun ffi o £7.50 ar gyfer eu hatgynhyrchu a'u dosbarthu, yn ogystal â £1.50 ar gyfer eu postio a'u pecynnu.

Rheswm am yr Archwiliad

1.2 Rhoddodd Deddf Safonau Bwyd 1999 y pwer i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau a monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd archwiliad y gwasanaeth bwyd yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili o dan adran 12(4) y Ddeddf, yn rhan o raglen archwilio flynyddol yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

1.3 Archwiliwyd yr Awdurdod fel rhan o raglen o archwiliadau llawn Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cwmpas yr Archwiliad

1.4 Cwmpas yr archwiliad oedd gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid Caerffili. Cynhaliwyd elfen ar-y-safle'r archwiliad yn swyddfeydd yr Awdurdod ym Mhontllanfraith, y Coed Duon rhwng 17 – 21 Ionawr 2005.

1.5 Aseswyd cydymffurfiaeth yr Awdurdod yn erbyn Y Safon gan yr archwiliad, gan ddefnyddio protocolau archwilio ASB/AP3/1 - ASB/AP21/1. Mabwysiadwyd Y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000, (diwygiwyd Mawrth 2002, Mehefin 2003 a Gorffennaf 2004), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol.

1.6 Gellir dod o hyd i'r Cytundeb Fframwaith a'r protocolau archwilio ar wefan yr Asiantaeth.

Cefndir

1.7 Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw un o'r Awdurdodau Unedol Mwyaf yng Nghymru, ac mae'n cynnwys ardal o ryw 28,000 hectar sy'n ymestyn o Flaenau'r Cymoedd yn y Gogledd i Rhisga a Chaerffili yn y De.

1.8 Mae'r Sir yn cynnwys mwy na 50 o drefi a phentrefi gwahanol ac mae ganddi boblogaeth o ryw 170,000 o bobl. Dosberthir mwyafrif yr ardal naill ai dan anfantais fawr (84%) neu dan anfantais (12%).

1.9 Mae rhyw 1,400 o fusnesau bwyd yn ardal yr Awdurdod a rhyw 290 o ffermydd. Mae pedwar cymysgwr bwydydd anifeiliaid a leolir ar ffermydd wedi'u cofrestru gyda'r Awdurdod.

1.10 Mae busnesau bwyd yn cynnwys mathau amrywiol o fusnesau, gan gynnwys adwerthu, gweithgynhyrchu, arlwyo a phrosesu. Cymeradwywyd chwe sefydliad i gynhyrchu cynnyrch cig, llaeth neu wyau o dan reoliadau hylendid bwyd sy'n benodol i gynnyrch.

1.11 Cyfrifoldeb y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd a'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yw gorfodi cyfraith hylendid bwyd, a chyfrifoldeb y Gwasanaeth Safonau Masnach yw gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid. Mae'r ddwy Adain yn rhan o Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd yr Awdurdod.

1.12 Lleolir y prif swyddogion gorfodi hylendid bwyd a gorfodi safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ill dau ym Mhencadlys yr Awdurdod yn y Coed Duon.

1.13 Nodai'r Awdurdod yn ei Gynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Bwyd y cynhaliwyd y gweithgaredd canlynol yn ystod 2003 – 2004:

Gweithgaredd Gorfodi 2003 – 2004	
Arolygiadau hylendid bwyd	775
Arolygiadau safonau bwyd	440
Arolygiadau bwydydd anifeiliaid	265
Cwynion hylendid bwyd	180
Cwynion ynghylch bwyd	129
Cwynion safonau bwyd	119
Samplau hylendid bwyd	449
Samplau safonau bwyd	477

1.14 Hefyd, nodai'r awdurdod bod arolygiadau i'w gwneud ar y niferoedd canlynol o safleoedd yn ystod 2004 –2005:

Arolygiadau Hylendid Bwyd

Categori	Cyfanswm	Arolygiadau i'w Gwneud
A	40	80
B	198	198
C	466	274
Cyfanswm Uchel	**704**	**552**
D	265	153
E	256	53
F	141	36
Cyfanswm arall	**662**	**242**
Cyfanswm	**1,366**	**794**

Arolygiadau Safonau Bwyd

Proffil Risg	Nifer y Safleoedd	Arolygiadau i'w Gwneud
Uchel	90	90
Canolig	490	245
Isel	518	313
N I R	95	0
Ailymweliadau		20
Cyfanswm	**1,193**	**680**

Arolygiadau Bwydydd Anifeiliaid

Nifer y Safleoedd	Arolygiadau a Gynlluniwyd
287 Llyfr meddyginiaeth a Ddelir	150
4 Cymysgwyr a gofrestrir ar ffermydd	4
290 cyfanswm y Safleoedd (gan gynnwys ffermydd)	154

Adnoddau

1.15 Amcangyfrifai Cynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Bwyd 2004– 2005 bod gan yr Awdurdod nifer o swyddogion cyfwerth â 5.8 amser llawn yn ymwneud â gorfodi hylendid bwyd a 3.1 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ymwneud â gorfodi cyfraith safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.

1.16 Cyfanswm dyraniadau cyllideb yr Awdurdod ar gyfer y gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ystod 2004 – 2005 oedd £327,917 a £160,000, yn y drefn honno. Ni ddadansoddwyd hyn yn ôl y fformat a osodwyd yn yr Arweiniad Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Roedd yr Awdurdod yn cynnig gwasanaeth gorfodi cyfraith fwyd cynhwysfawr ac effeithiol ac yn gweithio'n agos â busnesau i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelwch bwyd. Roedd yr Awdurdod yn cyflawni nifer o'i ddyletswyddau mewn ffordd arbennig o gynhwysfawr, gan gynnwys samplo bwyd, a gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref, ac roedd y cofnodion ynglyn â'r gweithgareddau hyn yn drylwyr a chyflawn.

2.2 Cydnabuwyd pwysigrwydd cynnig hyfforddiant i swyddogion gorfodi cyfraith fwyd ac roeddent wedi mynychu nifer o gyrsiau ar amrywiaeth o gyrsiau perthnasol. Roedd yr Awdurdod hefyd yn dangos ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd, a gyflawnwyd trwy ddarparu ystod eang o fentrau a dargedwyd.

2.3 Cryfderau'r Awdurdod

Hyfforddiant
Rhoddwyd nifer o gyfleoedd i swyddogion gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi, ac roedd yn amlwg bod y rheiny a orfodai'r gyfraith ynghylch bwyd yn bodloni gofynion datblygiad parhaus Cod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

Samplo Bwyd
Cynhelid samplo bwyd yn unol â'r polisi, gweithdrefnau a rhaglenni samplo. Roedd y cofnodion ffeil wedi'u cadw'n dda a chymerwyd camau dilynol lle bu'n ofynnol.

Safleoedd yr Awdurdod Cartref
Roedd yr Awdurdod yn ymdrin â'i gyfrifoldebau yn ôl Egwyddor yr Awdurdod Cartref trwy weithgareddau hylendid bwyd a safonau bwyd a dargedwyd, gan gynnwys arolygiadau, cyngor a samplo. Llofnodwyd cytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol â nifer o fusnesau lleol, a oedd yn helpu'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol.

Gweithgarwch Hyrwyddo – Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd
Dangosai ystod eang o weithgareddau gefnogaeth ac ymrwymiad i raglen ragweithiol, a gyflenwai ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol yr Awdurdod.

Cyngor i Fusnesau Bwyd
Roedd gan yr Awdurdod raglen eang a dargedwyd i ddarparu cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i fusnesau bwyd lleol, gan eu helpu i gydymffurfio â chyfraith fwyd.

3 Trefnu a Rheoli

3.1 Rhoddai'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Bwyd fanylion am ddatganiad o genhadaeth y Cyngor:

"Gweithio gyda'n gilydd er lles pawb ym mwrdeistref sirol Caerffili"

a sut y cyfrannodd y Gyfarwyddiaeth at hyn drwy amlygu'r amcan canlynol:

"*Amddiffyn a hyrwyddo diogelwch iechyd, lles cymdeithasol ac economaidd y cyhoedd a gwella amodau amgylcheddol drwy reoleiddio, gwybodaeth, cyngor a gweithredu*."

3.2 Roedd yr Awdurdod yn y broses o gynhyrchu ei Strategaeth Gymunedol gyntaf i ganolbwyntio ar faterion y cytunwyd eu bod yn sylfaenol bwysig i wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Fwrdeistref Sirol.

3.3 Y prif weithgareddau gorfodi bwyd sy'n gysylltiedig â'r nodau corfforaethol a chymdeithasol hyn yw:

- Rhaglenni arolygu bwyd a aseswyd o ran risg;
- Rhaglenni samplo bwyd;
- Ymchwilio i gwynion am fwyd;
- Cynnig gwybodaeth ac addysg i ddefnyddwyr;
- Cynnig gwybodaeth ac addysg i fasnachwyr;
- Prosiectau arbennig, arolygon arbennig ac ati ar gyfer bwyd;
- Egwyddor yr 'Awdurdod Cartref';
- Trwyddedu cigyddion.

3.4 Roedd gan yr Awdurdod Gynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Bwyd ar gyfer 2004 – 2005 a gynhwysai gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid a gymeradwywyd gan Gabinet yr Awdurdod ar 17 Awst 2004.

3.5 Cyflwynid adroddiadau monitro rheoli perfformiad i'r Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol a Thai bob chwarter. Roedd y targedau perfformiad yn cynnwys canran yr arolygiadau diogelwch bwyd y dylid bod wedi'u cynnal ar gyfer safleoedd 'risg uchel' a safleoedd 'eraill', a oedd wedi'u cyflawni mewn gwirionedd.

3.6 Gwnaed adolygiad perfformiad blynyddol, ar sail Cynllun Gwasanaeth 2003 - 2004, a'i gynnwys yng Nghynllun Gwasanaeth 2004 - 2005. Cynhwysai'r adolygiad perfformiad holl agweddau'r Cynllun Gwasanaeth, gan gynnwys arolygiadau. Fodd bynnag, nid oedd yn

amlwg yr ymdriniwyd â'r amrywiannau hyn a nodwyd o Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol, yn nhrefniadau gwasanaeth y flwyddyn ddilynol. Er enghraifft, dywedwyd wrth yr archwilwyr y cynhwyswyd y dagfa o ran arolygiadau hwyr yn y cynllun darparu gwasanaeth, ond nid oedd y dadansoddiad hwn wedi'i nodi'n eglur.

3.7 Roedd Cynllun Gwasanaeth 2004 – 2005 yn cysylltu ag Amcanion a Chynlluniau Corfforaethol yr Awdurdod ac amcanion allweddol y Gyfarwyddiaeth.

3.8 Cynhwysai'r Cynllun Gwasanaeth broffiliau risg cyflawn o ran safleoedd, rhaglenni arolygu a gynllunnid ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid, ac amcangyfrif o'r adnoddau staff sy'n ofynnol i ddarparu pob rhan o'r gwasanaeth gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

3.9 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau yr ymdrinnir â'r holl amrywiannau o ran cyflawni'r Cynllun Darparu Gwasanaeth yn eglur yn nhrefniadau'r flwyddyn ddilynol.
[Y Safon – 3.3]

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau a Ddogfennwyd

4.1 Roedd gan yr Awdurdod Weithdrefn Weithredol ddogfenedig i reoli dogfennaeth, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2004, a Llawlyfr Ansawdd Bwyd dyddiedig Medi 2004. Sicrhaodd y systemau hyn fod polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi a gynhwysir yn Y Safon yn cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ôl y gofyn.

4.2 Cynhyrchwyd polisïau a gweithdrefnau dogfenedig ar gyfer gweithgareddau gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid sy'n gynwysedig yn Y Safon. Roedd Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd ac Uwch Swyddog Safonau Masnach yn gyfrifol am gynnal y dogfennau hyn a sicrhau eu bod yn gyfredol.

4.3 Roedd copïau cyfredol a rheoledig o'r dogfennau ar gael i swyddogion ar y Fewnrwyd gorfforaethol.

4.4 Roedd gan swyddogion fynediad at gopïau cyfredol o'r rhan fwyaf o'r dogfennau perthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, a dogfennaeth briodol arall, er bod y gyfres o Ganllawiau Diwydiannol yn anghyflawn.

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Dirprwyai Cyfansoddiad yr Awdurdod, dyddiedig Tachwedd 2004, y pwer ar gyfer awdurdodi swyddogion i orfodi Deddf Diogelwch Bwyd i'r Cyfarwyddwr ac unrhyw Bennaeth Gwasanaeth oddi mewn i'r Gyfarwyddiaeth. Roedd Prif Swyddog Safonau Masnach wedi dyrannu awdurdodiadau a welwyd yn ystod yr archwiliad, a oedd yn unol â'r Cyfansoddiad.

5.2 Roedd Gweithdrefn Weithredol ddogfenedig ar gyfer awdurdodi swyddogion, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2004, a gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer Safonau Masnach yn y Llawlyfr Ansawdd Bwyd. Dangosai'r rhain y byddid yn awdurdodi swyddogion yn ôl eu cymwysterau, eu cymhwysedd a'u hanghenion hyfforddi.

5.3 Llofnodwyd dogfennau awdurdodi swyddogion yn briodol, a dogfennwyd cwmpas awdurdod pob swyddog yn glir ar sail asesiad o gymwysterau, hyfforddiant, profiad a chymhwysedd, yn ôl y cymwysterau, profiad, a meini prawf eraill a nodir yng Nghod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.4 Cadarnhaodd cofnodion bod swyddogion a oedd yn gorfodi cyfraith fwyd yn rheolaidd yn briodol o gymwys ac yn derbyn o leiaf yr isafswm o 10 awr o ddatblygiad parhaus gofynnol bob blwyddyn.

5.5 Fodd bynnag, roedd swyddogion yng Ngwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a'r Gwasanaeth Safonau Masnach nad oeddent yn ymwneud â gorfodi cyfraith fwyd ond a awdurdodwyd i orfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd. Nid oedd y swyddogion hyn yn bodloni'r gofyniad o ran hyfforddiant ar gyfer datblygiad parhaus. Rhaid i bob swyddog a awdurdodir i orfodi'r Ddeddf Diogelwch Bwyd wneud o leiaf 10 awr o hyfforddiant diweddaru sy'n gysylltiedig â bwyd bob blwyddyn, fel a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

5.6 Nid oedd unrhyw gynllun arfarnu a datblygu corfforaethol neu adrannol, ac nid oedd cynllun hyfforddiant adrannol dogfenedig ond, er hynny, roedd y cofnodion hyfforddi yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac roedd anghenion hyfforddiant pob swyddog yn cael eu nodi. Nodwyd bod cynllun arfarnu a datblygu corfforaethol newydd yn cael ei gyflwyno'n gyfnodol ac yn barhaus.

5.7 Cynigiwyd llawer o gyfleoedd i gyfranogi mewn digwyddiadau hyfforddi, ac roedd tystiolaeth a ddogfennwyd yn dda bod gofynion datblygiad parhaus yn cael eu bodloni. Hefyd, roedd tystiolaeth o hyfforddiant o ran gofynion a gweithdrefnau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Troseddol (PACE) a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA).

5.8 Roedd gan swyddogion a oedd yn gyfrifol am gymeradwyo ac arolygu sefydliadau o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd penodol i gynnyrch, ac am arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, wedi cael hyfforddiant penodol o ran egwyddorion ac ymarferion HACCP.

5.9 Hyfforddwyd swyddogion a gynhaliai arolygiadau o fusnesau bwyd â gradd risg 'uchel' ar gyfer safonau bwyd, a busnesau bwyd â systemau sicrwydd ansawdd dogfenedig, i lefel aseswr arweiniol sicrwydd ansawdd.

5.10 Rhoddwyd pwer i Swyddogion Safonau Masnach a Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd orfodi Rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd, a chynhwyswyd hyn mewn dogfennau awdurdodi.

5.11 Penododd yr Awdurdod Swyddogion arweiniol â chanddynt gyfrifoldeb am orfodi cyfraith hylendid bwyd a safonau bwyd, fel sy'n ofynnol gan God Ymarfer Rhif 19 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac am orfodi deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid.

5.12 Er i Gynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Bwyd amcangyfrif bod angen 6.5 aelod o staff FTE i ddarparu gwasanaeth gorfodi cyfraith hylendid bwyd, nodwyd mai dim ond 5.8 FTE oedd y dyraniad mewn gwirionedd. Fodd bynnag, adeg yr archwiliad, cywirwyd y diffyg hwn trwy gyflogi swyddog dros dro.

Argymhellion

5.13 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod gan yr holl swyddogion a awdurdodwyd ganddo o dan y Ddeddf Diogelwch Bwyd gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad addas sy'n gyson â'u hawdurdodiad a'u dyletswyddau ac sy'n unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(ii) Sefydlu, cynnal a gweithredu rhaglen hyfforddi ddogfenedig a sicrhau yr hyfforddir yr holl swyddogion awdurdodedig o ran agweddau technegol y gwaith y maent yn ei wneud. [Y Safon – 5.4]

6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd yr Awdurdod wedi peri bod y cyfleusterau a'r offer sy'n angenrheidiol i ganiatáu cynnal yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth, ar gael.

6.2 Roedd Gweithdrefn Weithredol ddogfenedig ar gyfer Calibro Offer a ddefnyddid gan y Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch, a ddiweddarwyd ym mis Hydref 2004. Nodwyd ffiniau goddefiant, er nad oedd yn nodi'r camau i'w cymryd pan aed y tu hwnt i'r ffiniau hyn.

6.3 Rhoddwyd offer sgrinio cyflym isgoch i swyddogion eu defnyddio'n gyson. Gwiriwyd y rhain er cywirdeb yn fisol. Defnyddid thermomedr cyfeirio a galibrwyd i fesur tymheredd at ddibenion gorfodi. Roedd thermomedr cyfeirio wrth gefn ar gael i'w ddefnyddio pan fyddai'r offeryn arferol yn cael i galibro.

6.4 Defnyddid deg cofnodydd data i fonitro tymheredd oergelloedd a rhewgelloedd, ac i fonitro tymheredd oerflychau a ddefnyddid i samplo bwyd.

6.5 Roedd cofnodion yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda ac yn dangos y gwiriwyd ac y calibrwyd offer yn unol â'r weithdrefn ddogfenedig.

6.6 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a ddefnyddid i gofnodi gwybodaeth sy'n ofynnol gan Asiantaeth Safonau Bwyd. Yn ystod yr archwiliad, dangoswyd y gallai'r system ddarparu gwybodaeth a oedd yn ofynnol gan yr Asiantaeth, yn hawdd.

6.7 Gweithredid systemau diogelwch a systemau wrth gefn i leihau'r perygl o lygru neu golli gwybodaeth a gedwid ar y gronfa ddata.

Argymhelliad

6.8 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithdrefn galibro offer i gynnwys eu gwaredu o ddefnydd pan eir y tu hwnt i ffiniau goddefiant. [Y Safon – 6.2]

7 Archwilio Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

7.1 Nodai'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Bwyd y seiliwyd rhaglen arolygiadau hylendid bwyd arfaethedig yr Awdurdod ar asesiadau risg, yn unol â Chod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.2 Roedd Gweithdrefnau Gweithredol dogfenedig ar gyfer arolygiadau ac ailymweliadau hylendid bwyd cyffredinol, arolygu a thrwyddedu siopau cigyddion, ac arolygu a chymeradwyo sefydliadau a oedd yn destun rheoliadau hylendid cynnyrch cig penodol i gynnyrch.

7.3 Gwiriwyd cofnodion a oedd yn ymwneud â deg safle a arolygwyd o dan reoliadau hylendid bwyd cyffredinol, wyth safle a gymeradwywyd ac a arolygwyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, a naw siop cigydd drwyddedig.

7.4 Arolygwyd pob un o'r deg safle a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd cyffredinol a phob un o'r wyth safle a oedd yn destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch yn ôl yr amlder cywir, fel a bennwyd gan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac ymddangosai eu bod wedi'u hasesu'n gywir o ran y perygl.

7.5 Dangosai adroddiad, a gynhyrchwyd o'r gronfa ddata yn ystod yr archwiliad, bod 87 o arolygiadau hylendid bwyd yn hwyr, a bod 12 ohonynt yng nghategorïau risg hylendid bwyd A - C, ac a oedd i fod i gael eu harolygu fel rhan o raglen arolygu 2004 - 2005. Roedd y 75 o safleoedd a oedd yn weddill yng nghategorïau risg hylendid bwyd D - F, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn hwyr o raglenni arolygu blynyddoedd cynt.

7.6 Anfonwyd llythyrau ôl-arolygiad ym mhob achos. Roedd y rhain yn cynnwys enw a chyfeiriad y perchennog, dyddiad yr arolygiad, dyddiad yr adroddiad, unrhyw gamau i'w cymryd i sicrhau cydymffurfiad, a'r amserlen.

7.7 Hefyd, rhoddwyd cyfle i'r perchnogion drafod yr arolygiad a'r canlyniad â'r swyddog arolygu, ac roedd tystiolaeth y cynhelid ailymweliadau lle'r oeddent yn briodol.

7.8 Roedd defnyddio ffurflenni cofnodi arolygiad pwrpasol, a gynhwysai wybodaeth am systemau HACCP a hyfforddiant hylendid i staff, yn hwyluso arolygu systematig ar safleoedd sy'n destun rheoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch.

7.9 Cynhwysai cofnodion am y sefydliadau a gymeradwywyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, wybodaeth fanwl am

gyfleusterau, gweithrediadau safle, cynnyrch a gynhyrchwyd, a samplo a wnaed. Dangosai cofnodion arolygu cyn-cymeradwyo a dogfennau cymeradwyo y seiliwyd y penderfyniad i gymeradwyo ar ystyriaeth drylwyr o'r holl feini prawf perthnasol ar gyfer cymeradwyo.

7.10 Cynhaliwyd arolygiadau hylendid bwyd yn unol â deddfwriaeth berthnasol, Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd, ac arweiniad arall a gyhoeddwyd yn ganolog.

7.11 Cynhwysai cofnodion a oedd yn ymwneud â'r naw cigydd trwyddedig dystiolaeth yr aseswyd cydymffurfiad â'r Rheoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd Cyffredinol) ac y seiliwyd y penderfyniad i'w trwyddedu ar asesiad o'r holl feini prawf perthnasol.

7.12 Roedd yn amlwg y gwnaed arolygiadau asesu cyn y deuai'r holl drwyddedau siopau cigyddion i ben, ac y cynhaliwyd ailymweliadau i sicrhau bod unrhyw waith gofynnol yn cael ei wneud cyn rhoi trwydded newydd iddynt.

Argymhelliad

7.13 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau hylendid bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y system graddio arolygiad a nodwyd yng Nghod Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 7.1]

Safonau Bwyd

7.14 Nodai'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Bwyd y seiliwyd rhaglen arolygiadau arfaethedig safonau bwyd yr Awdurdod ar asesiadau risg o dan y cynllun LACORS, a'i fod yn bodloni gofynion Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

7.15 Defnyddiai'r Awdurdod gymhorthion cof LACORS ar gyfer arolygiadau safonau bwyd ar safleoedd gweithgynhyrchu, arlwyo ac adwerthu i gyflenwi'r weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygiadau ac ymweliadau eraill yn y Llawlyfr Ansawdd Bwyd.

7.16 Archwiliwyd cofnodion a oedd yn ymwneud ag un ar ddeg o arolygiadau safonau bwyd a wnaed yn ystod y deuddeg mis cyn yr archwiliad. Cynhaliwyd yr arolygiadau gan swyddogion â'r cymwysterau a'r awdurdod priodol, a chynhaliwyd asesiadau risg.

7.17 Roedd un o'r safleoedd a gynhwysid ar y rhestr o arolygiadau safonau bwyd a gyflenwyd gan yr Awdurdod yn siop nwyddau metel. Rhoddwyd y cod anghywir i'r arolygiad ar y gronfa ddata.

7.18 O'r deg safle sy'n weddill, arolygwyd naw ohonynt yn ôl yr amlder cywir fel a bennwyd gan raddio risg safonau bwyd Cod Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Roedd yr un safle na chafwyd hanes arolygu ar ei gyfer yn y categori risg isel.

7.19 Nodai adroddiad o'r gronfa ddata a gynhyrchwyd yn ystod yr arolygiad bod 354 o arolygiadau safonau bwyd yn hwyr, 30 ohonynt yn y categorïau risg uchel a chanolig, a bod pob un ohonynt, ac eithrio un, i'w harolygu fel rhan o raglen 2004 - 2005. Roedd gweddill y safleoedd yn y categori risg isel, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn hwyr o raglenni arolygu blynyddoedd blaenorol, a bu rhai yn hwyr ers 1998 - 1999.

7.20 Felly, nid oedd arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal yn ôl yr amlder sylfaenol a bennir gan God Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Hefyd, roedd 94 o safleoedd bwyd ar y gronfa ddata nad oedd iddynt ddyddiad eu harolygiad safonau bwyd nesaf.

Argymhelliad

7.21 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau y cynhelir arolygiadau safonau bwyd yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennir o dan y system raddio arolygiadau a nodir yng Nghod Ymarfer Rhif 8 y Ddeddf Diogelwch Bwyd.
[Y Safon – 7.1]

Bwydydd Anifeiliaid

7.22 Nodai'r awdurdod fod ganddo weithdrefn ddogfenedig ar gyfer arolygu safleoedd bwydydd anifeiliaid. Fodd bynnag, y tu hwnt i gwmpas y weithdrefn, nid oedd fawr o dystiolaeth o sut roedd yn ymwneud â safleoedd bwydydd anifeiliaid.

7.23 Roedd yr Awdurdod wedi nodi 290 o ffermydd yn ei ardal a allai fod yn destun gorfodaeth cyfraith bwydydd anifeiliaid, pedair ohonynt wedi'u cofrestru yn gymysgwyr ar-y-fferm o dan Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Sefydliadau a Chyfryngwyr) 1999.

7.24 Archwiliwyd cofnodion deg o arolygiadau ar safleoedd bwydydd anifeiliaid, pob un ohonynt yn cynnwys asesiad risg priodol. Roedd naw o'r arolygiadau yn ymwneud â safleoedd a werthai fwyd anifeiliaid anwes. Gwnaed pump o'r arolygiadau oddi mewn i'r amlder a nodwyd mewn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog.

Argymhellion

7.25 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y cynhelir arolygiadau bwydydd anifeiliaid yn ôl amlder nad yw'n llai nag a bennir o dan y system graddio arolygiadau a nodir yn yr arweiniad perthnasol a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.1]

(ii) Estyn a gweithredu'r weithdrefn arolygu ddogfenedig i gynnwys safleoedd sy'n destun deddfwriaeth bwydydd anifeiliaid. [Y Safon – 7.4]

8 Cwynion am Fwyd, Bwydydd Anifeiliaid a Safleoedd Bwyd

8.1 Roedd gan yr Awdurdod weithdrefnau dogfenedig a gynhwysai ymchwilio i gwynion am fwyd, cwynion am fwydydd anifeiliaid a chwynion am hylendid safleoedd bwyd.

8.2 Archwiliwyd cofnodion deg cwyn am ddiogelwch bwyd, deg cwyn am hylendid safleoedd bwyd, a deg cwyn am safonau bwyd a'u cymharu yn erbyn Cod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd, arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, a gweithdrefnau dogfenedig yr Awdurdod ei hun.

8.3 Ni ddefnyddiwyd y ffurflen cofnodi ymchwiliadau i gwynion am ddiogelwch bwyd ym mhob achos, er y cofnodwyd y wybodaeth angenrheidiol mewn fformatau eraill. Rhoddwyd y cod anghywir ar y gronfa ddata i bedwar achos y cofnodwyd eu bod yn gwynion am fwyd, ac nid cwynion am fwyd neu gwynion am safleoedd bwyd oeddent.

8.4 Cadarnhaodd cofnodion y cynhaliwyd ymchwiliadau priodol o ran deg cwyn am safonau bwyd.

8.5 Fel arall, dangosai cofnodion yr ymchwiliwyd i gwynion yn drylwyr ac yn briodol, a chedwid manylion cynhwysfawr ar ffeil. Cyflëwyd canlyniadau ymchwiliadau i'r achwynwyr a'r busnesau cysylltiedig, a chafwyd cysylltu â'r Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol lle bu'n ofynnol.

Argymhelliad

8.6 Dylai'r Awdurdod:

Weithredu ei weithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymchwilio i gwynion am ddiogelwch bwyd yn llawn. [Y Safon – 8.1]

9 Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nodai'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Bwyd fod yr Awdurdod wedi glynu wrth Egwyddor yr Awdurdod Cartref ac wedi ymddwyn yn Awdurdod Cartref i wyth busnes yn yr ardal, a bod pob un ohonynt wedi ymrwymo i gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol â'r Awdurdod.

9.2 Roedd yr Awdurdod yn ymddwyn yn Awdurdod Gwreiddiol i un busnes hefyd, ac yn gweithredu'n Awdurdod Cartref i nifer o fusnesau eraill nad oedd ganddo gytundebau ffurfiol â nhw.

9.3 Roedd gan yr Awdurdod fusnesau cofrestredig yr oedd yn ymddwyn yn Awdurdod Cartref ar eu cyfer ar wefan LACORS, a diweddarwyd y cofnodion hyn ddiwethaf ym mis Awst 2004.

9.4 Roedd Gweithdrefn Weithredol ddogfenedig ar gyfer gweithredu Egwyddor yr Awdurdod Cartref, a gadarnhâi bod cysylltu ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol, lle'r oedd yn briodol, yn rhan annatod o brosesau gorfodi'r Awdurdod.

9.5 Roedd cofnodion o weithgareddau'r Awdurdod Cartref a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda, ac yn dangos bod Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn cael ei gweithredu'n effeithiol.

9.6 Roedd ffeil am bob busnes â chanddo gytundeb ffurfiol a gynhwysai gysylltiadau allweddol yn y cwmni, cofnodion o ymweliadau a gynhwysai grynodeb o'r materion a drafodwyd, cynlluniau a gwybodaeth am brosesau, cyngor a geisiwyd, labeli, a gohebiaeth.

9.7 Roedd tystiolaeth o arolygiadau rheolaidd, cyngor a samplo, a cheisid gwybodaeth gan awdurdodau gorfodi eraill mewn ffordd briodol.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Dangosodd yr Awdurdod ymagwedd ragweithiol at helpu busnesau lleol i gydymffurfio â chyfraith fwyd. Roedd nifer o fentrau'n cael eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyngor a gwybodaeth ar wefan yr Awdurdod;
- Taflenni gwybodaeth i fasnachwyr;
- Taflenni a phosteri hylendid a diogelwch bwyd;
- Taflenni cyngor ar safonau bwyd;
- Cyfeirio at gyrsiau hylendid sylfaen, canolradd ac uwch;
- Seminarau ar gynnyrch cig i bobyddion a chigyddion;
- Cyrsiau HACCP i berchnogion busnesau bwyd;
- Newyddlen 'Busnes Gwell' a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn;
- Pecyn arweiniol hunangymorth HACCP i arlwywyr;
- Cyngor ynghylch labelu cig eidion;
- Cyngor ynghylch sefydlu busnesau bwyd newydd.

10.2 Roedd tystiolaeth y darparwyd cyngor ar gais, yn ystod arolygiadau, a thrwy dargedu sectorau busnes bwyd penodol.

10.3 Hefyd, rhoddodd yr Awdurdod dystiolaeth o ymrwymiad i wahodd ymateb gan gwsmeriaid ac i ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd i wella cyflwyniad y gwasanaeth ac i ddatblygu opsiynau cyflwyno gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

10.4 Roedd tystiolaeth bod yr Awdurdod wedi cynnig cyngor perthnasol i safleoedd a oedd yn debygol o ddod oddi mewn i gwmpas Deddfwriaeth Bwydydd Anifeiliaid.

11 Cronfa Ddata Safleoedd Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

11.1 Roedd gan yr Awdurdod gronfa ddata o safleoedd yn ei ardal a oedd yn destun gorfodaeth bwyd a bwydydd anifeiliaid.

11.2 Dewisodd yr archwilwyr ddeg busnes ar hap o gategorïau mewn cyfeiriadur busnes lleol a ymddangosai ei fod yn cynnwys busnesau bwyd. Cofnodwyd naw o'r busnesau hyn yn fusnesau bwyd ar y gronfa ddata, ac roeddent yn gynwysedig yn rhaglenni arolygu hylendid bwyd a safonau bwyd cynlluniedig yr Awdurdod.

11.3 Roedd y degfed busnes wedi'i nodi eisoes gan wiriadau'r Awdurdod ei hun. Datgelodd ymchwiliadau fod y safle yn swyddfa weinyddol busnes bwyd ac, felly, nad oedd angen ei gynnwys yn y rhaglenni arolygu cynlluniedig.

11.4 Hefyd, datgelai'r adroddiadau nad oedd gan rai cofnodion safleoedd bwyd rhaglen arolygu safonau bwyd, broffiliau graddio'r risg, dyddiadau'r arolygiadau diwethaf, a / neu ddyddiadau eu harolygiadau nesaf.

11.5 Roedd dwy Weithdrefn Weithredol ddogfenedig ar gyfer sicrhau bod y gronfa ddata safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol, ac y gweithredid mesurau diogelwch rhesymol i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad at y cofnodion a'u newid.

11.6 Teitlau'r ddwy weithdrefn ddogfenedig oedd 'Rheoli'r Gronfa Ddata' a 'Safleoedd Newydd a Newidiadau i Safleoedd sy'n Bodoli Eisoes'. Roeddent yn cynnwys ffurflenni safonol i sefydlu cofnodion am safleoedd, monitro post a ddychwelir, gwiriadau rheolaidd ar gyfeiriadau mewn cyfeiriadur busnes lleol, a nodi newidiadau perthnasol yn ystod arolygiadau ac ymweliadau eraill.

11.7 Roedd swyddogion o'r Awdurdod wedi mynychu cyfarfodydd grwpiau defnyddwyr y gronfa ddata.

Argymhelliad

11.8 Dylai'r Awdurdod:

Weithredu ei weithdrefnau dogfenedig yn llawn i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn gywir ac yn gyfredol. [Y Safon – 11.2]

12 Arolygu a Samplo Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

Hylendid Bwyd

12.1 Roedd gan yr Awdurdod bolisi samplo bwyd dogfenedig a Gweithdrefn Weithredol ddogfenedig ar gyfer samplo hylendid bwyd. Cynhwysai'r cynllun samplo hylendid bwyd blynyddol gymryd rhan yn Arolwg Basged Siopa Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru, rhaglenni a gydlynir gan LACORS/NPHS, yr arolwg parhaus o heintiad Salmonela a Campylobacter mewn cig cyw iâr amrwd, a mentrau samplo lleol ar sail risg.

12.2 Seiliwyd nifer y samplau i'w cymryd bob blwyddyn ar 2.5 sampl am bob 1000 o bobl yn ardal yr Awdurdod.

12.3 Archwiliwyd cofnodion deg o samplau hylendid bwyd. Roedd un ohonynt yn swab amgylcheddol a gofnodwyd yn anghywir yn sampl o ddeunydd a gyffyrddai â bwyd. Fel arall, dangosodd y cofnodion y canolbwyntiai'r samplo ar raglen gynlluniedig yr Awdurdod, gan gynnwys bwyd a gynhyrchid yn lleol a chyfranogi mewn arolygon cyd-drefnedig rhanbarthol a chenedlaethol.

12.4 Cofnodwyd canlyniadau samplau yn gywir ac roeddent ar gael ym mhob achos. Cymerwyd camau priodol dilynol ynghylch y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol, gan gynnwys cymryd samplau eraill, ymweliadau â safleoedd ac arolygiadau arnynt, a chydweithio ag Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol lle bu'n ofynnol.

12.5 Archwiliwyd cofnodion deg achos o ildio bwyd yn wirfoddol i'w ddinistrio a'u cymharu â gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod a gofynion Cod Ymarfer Perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd.

12.6 Nodwyd nad oedd y dderbynneb a argraffwyd ymlaen llaw ar gyfer bwyd a ildiwyd yn wirfoddol yn nodi bod y bwyd yn cael ei ildio'n wirfoddol i'w ddinistrio, fel sy'n ofynnol yn ôl Cod Ymarfer Rhif 4 y Ddeddf Diogelwch Bwyd a gweithdrefn ddogfenedig yr Awdurdod ei hun.

12.7 Ni lofnodwyd yr un o'r deg derbynneb gan y person a oedd yn ildio'r bwyd, ni ardystiwyd rhestrau o fwyd a ildiwyd â nod swyddogol yr Awdurdod, a dim ond un dderbynneb a lofnodwyd gan y swyddog perthnasol. Nid oedd yr un o'r derbynebion yn rhoi manylion am ddinistrio'r bwyd.

Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

12.8 Roedd y weithdrefn samplo safonau bwyd yn rhan o'r Llawlyfr Ansawdd Bwyd, a dogfennwyd rhaglen 2004 – 2005 yn y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Gorfodi Bwyd. Canolbwyntiai'r rhaglen samplo ar arolygon a phrosiectau a gyd-drefnwyd yn genedlaethol ac yn lleol, cynnyrch Awdurdod Cartref, ac ar sgrinio a gwiriadau realiti.

12.9 Cynhelid gweithgareddau samplo safonau bwyd ar ystod o gynhyrchion a gynhyrchwyd ac a weithgynhyrchwyd yn lleol yn unol â'r rhaglen gynlluniedig, gan gynnwys cyfranogi mewn arolygon cyd-drefnedig, a samplo o ran cwynion ynghylch bwyd a busnesau Awdurdod Cartref.

12.10 Archwiliwyd cofnodion deg o samplau safonau bwyd, dau ohonynt yn samplau ffurfiol. Roedd canlyniadau samplau ar gael ym mhob achos a chymerwyd camau dilynol priodol o ran y rheiny yr adroddwyd eu bod yn anfoddhaol, gan gynnwys trafodaethau â'r busnesau perthnasol a chydlynu â'r Awdurdod Cartref lle bu'n ofynnol. Dangosai dogfennaeth o ran y samplau ffurfiol y dilynwyd gweithdrefnau statudol.

12.11 Dangosai cofnodion dau sampl bwydydd anifeiliaid a gymerwyd yn ddiweddar bod gweithgarwch samplo cyfyngedig yn digwydd, er nad oedd unrhyw dystiolaeth arall o samplo blaenorol ar fwydydd anifeiliaid.

12.12 Penododd yr Awdurdod Ddadansoddwr Cyhoeddus a Dadansoddwr Amaethyddol o Awdurdod cyfagos a dirprwyon o gwmnïau preifat yn unol â phwerau dirprwyedig yr Awdurdod. Fodd bynnag, nid oedd dogfennaeth a oedd ar gael i'r archwilwyr am y penodiadau yn ddigonol i ddangos bod gan y bobl a benodwyd gymwysterau priodol.

Argymhellion

12.13 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau yr ymgymerir ag ildio bwyd yn wirfoddol yn gwbl unol â deddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 12.1]

(ii) Cael tystiolaeth ddogfennol fod gan ei Ddadansoddwyr Cyhoeddus ac Amaethyddol gymwysterau sy'n bodloni'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol.
[Y Safon – 12.8]

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Ymwneud â Bwyd

13.1 Sefydlodd yr Awdurdod weithdrefn ddogfenedig o ran rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Datblygwyd y weithdrefn ar y cyd gan yr Awdurdod a sefydliadau perthnasol eraill yn unol ag arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog ac a adolygwyd ac a ddiweddarwyd yn ddiweddar. Mabwysiadodd yr Awdurdod y cynllun, a seiliwyd ar y model diwygiedig i Gymru, yn ffurfiol yng nghyfarfod y Cabinet ar 30 Tachwedd 2004, er nad oedd gweddill y partneriaid wedi cytuno arno adeg yr archwiliad.

13.2 Ni chafwyd yr un achos a fodlonai diffiniad achos o glefyd heintus sy'n ymwneud â bwyd yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad ac, felly, nid oedd y weithdrefn wedi'i defnyddio na'i phrofi. Fodd bynnag, dangosai cofnodion achosion cynharach ac achosion diweddarach o heintiadau firaol nad oeddent yn cael eu cludo gan fwyd, y cynhaliwyd ymchwiliadau manwl.

13.3 Yn ogystal â'r Cynllun Rheoli Achosion, roedd yn ogystal gyfres o Weithdrefnau Gweithredol dogfenedig ar gyfer ymchwilio i ystod o achosion achlysurol o heintiadau amrywiol, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2004. Nid oedd y gweithdrefnau'n adlewyrchu proses ymchwilio'r Awdurdod yn llawn.

13.4 Roedd gweithdrefnau dogfenedig hefyd yn cynnwys trafod hysbysiadau o heintiadau Salmonela ac E.coli O157 a ddigwyddai y tu allan i oriau swyddfa arferol, ac roedd cyfres o ffurflenni ymchwilio safonol, holiaduron a chofnodion hanes bwyd i helpu sicrhau yr ymchwilid i achosion achlysurol yn systematig.

13.5 Cynhaliwyd ymchwiliadau i glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd gan swyddogion adain Iechyd yr Amgylchedd Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Cydweithiwyd â swyddogion o'r adain Diogelwch Bwyd ac Iechyd a Diogelwch pan fyddai trinwyr bwyd a/neu safleoedd bwyd yn gysylltiedig ag achosion o salwch achlysurol neu ag achos.

13.6 Archwiliwyd cofnodion deg rhybudd o ran achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd. Er bod y rhain yn cynnwys manylion am yr ymchwiliadau a wnaed, yn gyffredinol, roedd y rhain ar y cyfan yn annigonol i ddangos y bu ymchwiliadau yn briodol.

13.7 Er bod cofnodion o ran ymchwilio achosion ar gael am y cyfnod gofynnol, dim ond o fis Hydref 2003 yr oedd cofnodion am achosion achlysurol ar gael.

Argymhellion

13.8 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau y profir ei weithdrefn ar gyfer rheoli achosion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd fel a fanylwyd. [Y Safon – 13.1]

(ii) Adolygu ei weithdrefnau dogfenedig ar gyfer ymchwilio i rybuddion o glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd a sicrhau bod cofnodion yn ddigonol i ddangos y cynhaliwyd ymchwiliad systematig a thrylwyr. [Y Safon – 13.2]

(iii) Sicrhau y cedwir yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n ymwneud â bwyd am o leiaf 6 blynedd. [Y Safon – 13.3]

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gan yr Awdurdod system gyfrifiadurol a allai dderbyn Rhybuddion Perygl Bwyd. Anfonwyd y rhain yn electronig o Asiantaeth Safonau Bwyd yn uniongyrchol at swyddogion a ymdriniai â gorfodi cyfraith fwyd.

14.2 Roedd Gweithdrefn Weithredol Diogelwch Bwyd ddogfenedig i ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd ac i roi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigwyddiadau lleol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cysylltu y tu allan i oriau gwaith.

14.3 Yn ôl y weithdrefn, roedd yn ofynnol ystyried yr ymateb i bob Rhybudd Perygl Bwyd a, phe bai angen gweithredu, roedd yn ofynnol argraffu copi caled o'r rhybudd a'i atodi i daflen gofnod lle cofnodid gweithredoedd a chanlyniadau.

14.4 Hefyd, roedd Llawlyfr Ansawdd Bwyd Safonau Masnach yn cynnwys gweithdrefn ddogfenedig ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Perygl Bwyd a rhoi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigwyddiadau lleol, ond nid oedd yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith.

14.5 Archwiliwyd cofnodion sawl Rhybudd Perygl Bwyd a gyhoeddwyd gan Asiantaeth Safonau Bwyd yn ystod y 6 mis cyn yr archwiliad, yr oedd nifer ohonynt yn ei wneud yn ofynnol i'r Awdurdod weithredu. Rhoddwyd manylion ar wefan yr Awdurdod, gan gynnwys y rheiny a gyhoeddwyd yn y categori 'Er Gwybodaeth yn Unig'.

14.6 Roedd cofnodion o'r holl Rybuddion Perygl Bwyd a wiriwyd ar gael yn electronig a/neu ar ffurf copi caled, a chofnodwyd unrhyw gamau a gymerwyd. Hefyd, nodwyd hyd yn oed mewn achosion lle'r oedd yr Awdurdod wedi dod i'r casgliad nad oedd angen gweithredu, y rhoddwyd y wybodaeth ar ei wefan er hynny.

14.7 Roedd yr Awdurdod wedi rhoi gwybod i Asiantaeth Safonau Bwyd am ddigwyddiadau lleol difrifol yn unol â'i weithdrefnau dogfenedig a Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. Roedd yr Awdurdod wedi cydweithio'n agos â'r Asiantaeth wrth ymdrin â'r digwyddiadau hyn a'u datrys.

Argymhelliad

14.8 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithdrefn ddogfenedig ar Safonau Bwyd ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Diogelwch Bwyd i gynnwys trefniadau cysylltu y tu allan i oriau gwaith.
[Y Safon – 14.1]

15 Gorfodaeth

15.1 Roedd gan yr Awdurdod Bolisi Gorfodi dogfenedig a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2002. Roedd ar gael yn hawdd i aelodau'r cyhoedd a busnesau bwyd, a gellid ei weld ar wefan yr Awdurdod hefyd.

15.2 Nid oedd cwmpas y polisi yn cynnwys ystod lawn y dewisiadau gorfodi cyfraith fwyd, er enghraifft, gweithdrefnau gwirfoddol.

15.3 Fodd bynnag, roedd Polisi Gorfodi Diogelwch Bwyd ar wahân a ymdriniai ag ystod lawn y dewisiadau gorfodi. Er nad oedd hwn wedi'i gyflwyno i'r Aelodau ei gymeradwyo, fe'i cymeradwywyd gan Brif Swyddog Safonau Masnach, a oedd yn gweithredu ag awdurdod dirprwyedig, ar 2 Tachwedd 2004. Nid oedd hwn ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd.

15.4 Hefyd, roedd Gweithdrefnau Gweithredol dogfenedig manwl ar gyfer cymryd Camau Anffurfiol, Cau Gwirfoddol, Gweithdrefnau Gwahardd, Rhybuddion Ffurfiol, Cadw ac Atafaelu Bwyd, Rhybuddion Gwella, Bwyd a Fewnforir, Cychwyn Troseddau, Troseddau, Llunio Adroddiadau, Prosesu Adroddiadau, Erlyniadau, Tystiolaeth a Phwerau, Gwarantau Mynediad, Datganiadau, Cyfweliadau, a Rheoli Tystiolaeth.

15.5 Adroddodd yr Awdurdod y cymerwyd y camau gorfodi ffurfiol canlynol yn ystod y 2 flynedd cyn yr archwiliad:

- 5 Erlyniad;
- 2 Rybudd Ffurfiol;
- 25 Rhybudd Gwella;
- 8 achos o Gau Gwirfoddol;
- 8 achos o Ildio Gwirfoddol.

15.6 O'r cofnodion a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad, roedd yn amlwg bod swyddogion yn defnyddio cymysgedd o ddewisiadau gorfodi ffurfiol ac anffurfiol yn rheolaidd, gan gynnwys llythyrau, Rhybuddion Gwella, cau safleoedd yn wirfoddol, ildio bwyd yn wirfoddol, rhybuddion ffurfiol, ac erlyniadau.

15.7 Bu'r penderfyniadau gorfodi yn unol â'r Polisi Gorfodi, ac wedi cymryd amgylchiadau penodol pob achos i ystyriaeth. Mewn ffeiliau a archwiliwyd gan yr archwilwyr, ymddangosai fod penderfyniadau'n gymesur ac yn gywir.

15.8 Archwiliwyd cofnodion o ran pum erlyniad, dau rybudd ffurfiol, deg achos o ildio bwyd yn wirfoddol, wyth achos o gau safleoedd yn

wirfoddol, a deg Rhybudd Gwella a'u gwirio yn erbyn arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog, polisi gorfodi'r Awdurdod, a gweithdrefnau dogfenedig perthnasol.

15.9 Awdurdodwyd a chychwynnwyd erlyniadau gan swyddogion â chanddynt bwerau dirprwyedig priodol ac, yn gyffredinol, roedd ffeiliau achos wedi'u paratoi'n dda. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth ar ffeil yn gyson, ni ddefnyddid ffurflenni safonol bob tro, a phan gawsent eu defnyddio nid oeddent wedi'u llenwi'n llawn bob tro, ond nid oedd hyn wedi effeithio ar gywirdeb unrhyw un o'r achosion.

15.10 Dangosai cofnodion yr ystyriwyd ac y dogfennwyd gofynion PACE, RIPA a CPIA yn briodol ym mwyafrif yr achosion, er y golygai bylchau mewn rhai cofnodion nad oedd yn bosibl bod yn siwr, mewn dau achos, a fodlonwyd y gofynion hyn yn llawn.

15.11 Cyhoeddwyd y ddau rybudd ffurfiol mewn amgylchiadau a ymddangosai'n briodol ac yn unol â'r arweiniad perthnasol.

15.12 Roedd swyddogion a oedd wedi cyflwyno Rhybuddion Gwella wedi'u hawdurdodi'n briodol i wneud hynny, ac ymddangosai fod yr amgylchiadau'n briodol ym mhob achos. Cofnodai rhestrau gwirio rhybuddion wybodaeth am berchnogion y busnesau perthnasol ac amgylchiadau cyhoeddi'r rhybuddion.

15.13 Mewn naw o'r deg achos, roedd tystiolaeth y cymerwyd camau dilynol o ran rhybuddion i sicrhau cydymffurfiad, a chofnodwyd y dull o gyflwyno ym mhob achos. Cedwid cofnodion o gydymffurfiad, fodd bynnag, nodwyd nad polisi nac arfer yr Awdurdod oedd gofyn i swyddogion ysgrifennu at berchnogion i gadarnhau y cydymffurfiwyd â rhybudd.

15.14 Ymddangosai bod cau safleoedd yn wirfoddol yn gam priodol ym mhob un o'r wyth achos a archwiliwyd, pump ohonynt yn ymwneud â safle'r Awdurdod ei hun. Cefnogai ymgymeriad ysgrifenedig gan y perchennog y cau gwirfoddol ym mhob achos ond un.

Argymhellion

15.15 Dylai'r Awdurdod:

(i) Sicrhau bod ei bolisïau dogfenedig yn gwbl unol â Chodau Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd. [Y Safon - 15.1]

(ii) Sicrhau y gorfodir cyfraith fwyd yn unol â Chod Ymarfer perthnasol y Ddeddf Diogelwch Bwyd ac arweiniad a gyhoeddwyd yn ganolog. [Y Safon – 15.3]

16 Cofnodion ac Adroddiadau Arolygu

16.1 Roedd adroddiadau arolygiadau o dan Reoliadau Diogelwch Bwyd (Hylendid Bwyd yn Gyffredinol) yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan God Ymarfer Rhif 9 y Ddeddf Diogelwch Bwyd, er nad oedd y ffurflen gofnodi'n cynnwys meysydd penodol y safleoedd a arolygwyd, nac yn dangos a gymerwyd samplau. Yn gyffredinol, dangosai'r cofnodion y cynhaliwyd arolygiadau priodol.

16.2 Esboniai adroddiadau arolygu hylendid bwyd yn eglur y mesurau yr oedd angen eu cymryd i sicrhau cydymffurfiad a pham bod eu hangen. Gwahaniaethwyd rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, a rhoddwyd cyfeiriadau cyfreithiol penodol.

16.3 Hefyd, roedd cofnodion ac adroddiadau arolygu ar sefydliadau a gymeradwywyd o dan reoliadau hylendid bwyd penodol i gynnyrch, yn gynhwysfawr ac wedi'u cadw'n dda. Dangosai'r rhain y rhoddwyd sylw manwl i asesu systemau rheoli diogelwch bwyd a hyfforddiant staff, ac y cymerwyd camau dilynol lle roeddent yn ofynnol i sicrhau gwelliant a chydymffurfiad.

16.4 Cynhwysai cofnodion ffeil a chofnodion ar y gronfa ddata ffurflenni cais a chofnodion arolygu, a manylion am y busnesau a'r gweithrediadau a wnaed, gan ei wneud yn bosibl pennu bod penderfyniadau i gymeradwyo wedi cymryd yr holl feini prawf perthnasol i ystyriaeth.

16.5 Cofnodwyd arolygiadau trwyddedu siopau cigyddion ar ffurflenni arolygu hylendid bwyd cyffredinol, a ategwyd ym mwyafrif yr achosion gan nodiadau ychwanegol ar systemau rheoli diogelwch bwyd a hyfforddi staff.

16.6 Cwblhawyd adroddiadau am arolygiadau safonau bwyd ar ffurflen adrodd yr arolygiad, a fodlonai holl ofynion Cod Ymarfer Rhif 8. Roedd cofnodion safleoedd Awdurdod Cartref yn enwedig o gynhwysfawr, gan gynnwys proffiliau busnes, disgrifiadau o weithgareddau a wnaed, dyddiadau a chanlyniadau arolygiadau ac ymweliadau, asesiadau o gydymffurfiad â gofynion cyfreithiol, cwynion, manylion a chanlyniadau samplau, a chopïau o ohebiaeth.

16.7 Cedwid cofnodion manwl am samplau a chanlyniadau hylendid bwyd a safonau bwyd, gan ddangos y targedwyd samplo yn briodol, ac y cymerwyd camau dilynol ynghylch canlyniadau anfoddhaol.

16.8 Roedd cofnodion cronfa ddata o ran cwynion am fwyd, achosion achlysurol o afiechydon a gludir gan fwyd a safleoedd ac arolygiadau bwydydd anifeiliaid heb eu cadw cystal. Ni roddwyd y cod cywir i rai

cwynion am fwyd ac arolygiadau bwydydd anifeiliaid, ac roedd bylchau mewn rhai cofnodion. Mae cronfa ddata gywir yn ofynnol er mwyn cynhyrchu gwybodaeth monitro perfformiad cynhwysfawr.

Argymhelliad

16.9 Dylai'r Awdurdod:

Sicrhau bod ei gofnodion ar y gronfa ddata yn gyfredol, yn gywir, ac yn rhwydd adferadwy ar gyfer yr holl safleoedd bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal.
[Y Safon – 16.1]

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr Awdurdod wedi sefydlu a gweithredu Gweithdrefn Gwyno Gorfforaethol. Roedd ar gael yn rhwydd, i'r cyhoedd ac i fusnesau bwyd a bwydydd anifeiliaid, o adeiladau dinesig ac ar wefan yr Awdurdod.

17.2 Hefyd, roedd Gweithdrefn Weithredol ddogfenedig ac adran o'r Llawlyfr Ansawdd Bwyd a fanylai drefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am y gwasanaeth yn lleol oddi mewn i'r adrannau unigol.

17.3 Ni chafwyd unrhyw gwynion ffurfiol yn erbyn y gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd neu fwydydd anifeiliaid yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

18 Cysylltiad â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr Awdurdod drefniadau cysylltu ag awdurdodau cyfagos a chyrff eraill, gyda'r nod o hwyluso gorfodaeth a oedd yn gyson. Roedd y rhain yn cynnwys cyfranogiad yn y canlynol:

- Grwp Gorchwyl Diogelwch Bwyd De Ddwyrain Cymru;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Grwp Safonau Amaethyddol a Bwyd dros Gymru;
- Grwp Bwyd Gwent Fwyaf;
- Grwp Cyswllt Clefydau Trosglwyddadwy De Ddwyrain Cymru;
- Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy;
- Penaethiaid Cymru y Grwp Safonau Masnach;
- Penaethiaid Grwp Iechyd yr Amgylchedd.

18.2 Cadarnhaodd cofnodion cyfarfodydd grwpiau cyswllt y cafwyd presenoldeb rheolaidd gan gynrychiolwyr priodol y gwasanaethau gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid.

18.3 Hefyd, roedd gan yr Awdurdod drefniadau i gydweithio ag:

- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru;
- Cynghrair Iechyd Caerffili;
- Gwasanaeth Hylendid Cig;
- Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig;
- Yr Awdurdod Iechyd a chyrff olynol;
- Cydlynwyr Gwasanaethau Rheoleiddiol Awdurdodau Lleol;
- Y Sefydliad Safonau Masnach;
- Awdurdodau lleol eraill.

19 Monitro Mewnol

19.1 Roedd gan yr Awdurdod Weithdrefn Weithredol ddogfenedig ar gyfer rheoli gorfodi hylendid bwyd, a gweithdrefn monitro mewnol ddogfenedig ar gyfer Safonau Masnach. Cyflwynwyd y ddwy weithdrefn ym mis Hydref 2004.

19.2 Cynhwysai'r gweithdrefnau agweddau ansoddol a meintiol fel gwiriadau ffeil, arolygiadau adolygu gan gydradd, cyfarfodydd tîm, cyfarfodydd adolygu personol, monitro gohebiaeth a hysbysiadau, holiaduron defnyddwyr y gwasanaeth a digwyddiadau hyfforddi mewnol gyda'r nod o gyflawni cysondeb.

19.3 Yn ôl model perfformiad corfforaethol yr Awdurdod, sef 'Gyrrwr Caerffili', roedd yn ofynnol hunanasesu perfformiad a nodi a blaenoriaethu gwelliannau i'w gweithredu.

19.4 Adolygwyd perfformiad gorfodi bwyd a bwydydd anifeiliaid mewn cyfarfodydd Tîm Rheoli Adrannol misol, a derbyniai Pwyllgor Archwilio'r Awdurdod adroddiadau perfformiad yn rheolaidd.

19.5 Roedd yr Awdurdod wedi cadw cofnodion am ei weithgareddau monitro.

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gydradd

20.1 Cyfranogodd y gwasanaeth gorfodi hylendid bwyd yn archwiliad adolygu a chydymffurfiad dogfen rhyng-awdurdod hylendid bwyd Cymru gyfan ym mis Hydref 1999, archwiliad bwyd rhyng-awdurdod ar y cyd ag awdurdod cyfagos ym mis Mai 2000, ac ymarfer meincnodi Diogelwch Bwyd ym mis Medi 2002.

20.2 Hefyd, cyfranogodd yr Awdurdod mewn Cenhadaeth gan y Swyddfa Fwyd a Milfeddygaeth yn 2001.

20.3 Bu'r Gwasanaeth Safonau Masnach yn destun archwiliad systemau samplo bwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod ym mis Awst 1999, a bu'n destun Arolygiad Gwerth Gorau ym mis Mehefin 2001.

20.4 Roedd yr Awdurdod wedi ymrwymo i gyfranogiad parhaus mewn ymarferion adolygu gan drydydd parti a chydradd, fel a brofwyd gan ei gyfranogiad arfaethedig mewn archwiliad Iechyd a Diogelwch Rhyng-Awdurdod sydd ar ddod.

21 Hyrwyddo Diogelwch a Safonau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

21.1 Dangosodd yr Awdurdod ymrwymiad i hyrwyddo diogelwch a safonau bwyd.

21.2 Roedd yr Awdurdod yn cyfranogi yng nghynllun Gwobr Hylendid Bwyd Cymru ac, adeg yr archwiliad, dyfarnwyd 176 o wobrau ganddo. Yn ddiweddarach, datblygodd ei Wobr Dewisiadau Iach ei hun, gyda'r nod o gynyddu mynediad at flasu bwyd a baratoir mewn ffordd iach gan ddefnyddio arferion hylendid bwyd da ac a weinir mewn amgylchedd iach.

21.3 Hefyd, roedd yr Awdurdod wedi cymryd rhan mewn nifer o arolygon Cenedlaethol a godai broffil safonau bwyd y cynnyrch sydd ar gael yn lleol, gan gynnwys prydau bwyd mewn ysgolion. Roedd arolwg ynghylch cryfder a dilysrwydd alcohol yn gysylltiedig ag ymgyrch hyrwyddol ynghylch yfed alcohol adeg y Nadolig.

21.4 Hefyd, roedd tystiolaeth bod yr Awdurdod yn cyfranogi mewn ystod o weithgareddau hyrwyddo diogelwch bwyd a safonau bwyd, ac roedd cynlluniau am fwy o waith yn y maes hwn. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys :

- Menter ysgolion iach;
- Strategaeth a chynllun gweithredu maeth;
- Llinell newyddion;
- Golchi dwylo i Blant Ysgol;
- Gwyl Caws Mawr Caerffili;
- Hyfforddiant ar hylendid bwyd;
- Wythnos genedlaethol diogelwch bwyd;
- Gwybodaeth ar y wefan;
- Defnyddiwr ifanc y flwyddyn.

21.5 Nid oedd tystiolaeth o unrhyw weithgarwch hyrwyddo o ran bwydydd anifeiliaid.

Argymhelliad

21.6 Dylai'r Awdurdod:

Estyn ei weithgarwch hyrwyddo i gynnwys bwydydd anifeiliaid.
[Y Safon – 21.1]

Archwilwyr:	**Jane Davies**
	Rob Wilkins
	Lindsay Horth
	Tony Wheale
	Keith Blake

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
Llawr 11
Ty Southgate
Stryd Wood
Caerdydd
CF10 1EW

ATODIAD

Geirfa

Dadansoddwr Amaethyddol	Rhywun, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwydydd anifeiliaid.
Safleoedd cymeradwy	Safle gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwyir gan yr awdurdod lleol, yng nghyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddir cod adnabod unigryw iddo sy'n berthnasol mewn masnach genedlaethol a/neu ryngwladol.
Swyddog awdurdodedig	Swyddog cymwys addas a awdurdodir gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth, er enghraifft, orfodi deddfwriaeth.
Gwerth Gorau *	Polisi Llywodraethol â'r nod o wella perfformiad llywodraeth leol wrth ddarparu gwasanaethau i gymunedau lleol – o addysg a gofal i'r henoed, i iechyd yr amgylchedd a chynnal ffyrdd. Nod Gwerth Gorau yw sicrhau bod lefel cost ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn dderbyniol i bobl leol trwy: • gynyddu rôl pobl leol wrth benderfynu blaenoriaethau gwasanaethau llywodraeth leol • gwella'r ffordd y mae awdurdodau'n rheoli ac yn adolygu eu busnes • adeiladu ar brofiad ac arbenigedd staff. * Yng Nghymru, disodlwyd hyn yn ddiweddar gan Raglen Cymru ar gyfer Gwella
Arolygfeydd Ffin	Man dyfod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE i gynnyrch sy'n deillio o anifeiliaid.
Codau Ymarfer	Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddir o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch gorfodi deddfwriaeth bwyd.
Concordat Gorfodi	Arweiniad gan y Llywodraeth sy'n nodi egwyddorion a gweithdrefnau gorfodaeth dda y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu. Fe'i datblygwyd mewn ymgynghoriad â busnesau, llywodraeth leol a chanolog, grwpiau defnyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Mae'n nodi'r hyn y gall busnesau ac

	eraill sy'n cael eu rheoleiddio ei ddisgwyl gan swyddogion gorfodi.
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (SIA)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd.
Bwydydd Anifeiliaid	Term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth i ddisgrifio cymysgeddau bwyd i anifeiliaid fferm ac anifeiliaid anwes.
Archwiliwr Bwyd	Person â'r cymwysterau rhagnodedig sy'n cynnal dadansoddiadau microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol.
Rhybuddion Perygl Bwyd	Mae hwn yn system a weithredir gan Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol o ran diogelwch bwyd.
Hylendid bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys diogelwch ac iachusrwydd bwyd.
Safonau bwyd	Y gofynion cyfreithiol sy'n cynnwys ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd.
Cytundeb Fframwaith	Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys: • Safon Gorfodi Cyfraith Fwyd • Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth • Cynllun Monitro • Cynllun Archwilio Mae'r **Safon** a'r **Arweiniad ar Gynllunio Gwasanaeth** yn nodi disgwyliadau'r Asiantaeth ynghylch cynllunio a darparu gorfodaeth cyfraith fwyd. Mae'r **Cynllun Monitro** yn ei wneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno ffurflenni chwarterol i'r Asiantaeth am eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau. O dan y **Cynllun Archwilio** bydd Asiantaeth Safonau Bwyd yn archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd awdurdodau lleol yn ôl y meini prawf a nodwyd yn y Safon.

Ffigur Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE)	Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan hwnnw o amser swyddog unigol sydd ar gael ar gyfer swyddogaeth neu gyfres o ddyletswyddau penodol. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gall unigolion fod yn gweithio'n rhan amser, neu y gall fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodaeth fwyd.
HACCP	Pwynt Rheoli Critigol ar gyfer Dadansoddi Peryglon – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i nodi pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hanfodol i ddiogelwch bwyd y cynhelir y mesur rheoli yn gywir, a thrwy hynny ddileu neu leihau'r perygl i lefel sy'n ddiogel.
Awdurdod Cartref	Awdurdod lle ceir sylfaen benderfynu berthnasol menter, ac sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am gynghori'r busnes hwnnw ynghylch materion yn ymwneud â diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel y pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill, o ran polisïau a gweithdrefnau'r cwmni hwnnw sy'n gysylltiedig â bwyd.
Rhybudd Gwella	Rhybudd a gyflwynir gan Swyddog Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Adran 10 Deddf Diogelwch Bwyd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i berchennog busnes bwyd wneud gwaith addas i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth hylendid bwyd neu brosesu bwyd.
Archwilio Rhyng-Awdurdod	System lle gall awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith fwyd ei gilydd yn erbyn safon ansawdd a gytunwyd.
Fforwm aelodau	Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod ac yn penderfynu ar wasanaethau gorfodi cyfraith fwyd.
Ffurflenni CSRhB	Ffurflenni am weithgareddau gorfodi cyfraith fwyd lleol y mae'n ofynnol eu dychwelyd i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Swyddogol Rheoli Bwydydd.
Awdurdod Gwreiddiol	Awdurdod y mae busnes, yn ardal yr Awdurdod hwnnw, yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethu ac y mae'r Awdurdod yn gweithredu yn bwynt cyswllt canolog iddo o ran ymholiadau gan

	awdurdodau gorfodi eraill am y cynhyrchion hynny.
Awdurdod Iechyd Porthladd	Awdurdod lleol y ceir, oddi mewn i'w ffiniau, bwynt mynediad i'r DU ar gyfer bwydydd a fewnforir.
Dadansoddwr Cyhoeddus	Swyddog, â chanddo'r cymwysterau rhagnodedig, a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i ddadansoddi samplau bwyd yn gemegol.
Graddio risg	System sy'n graddio safleoedd bwyd yn ôl y risg ac yn pennu pa mor aml y dylid arolygu'r safleoedd hynny. Er enghraifft, dylid arolygu safleoedd hylendid uchel eu risg, o leiaf unwaith bob 6 mis.
Cynllun Gwasanaeth	Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n nodi ei gynlluniau ynghylch darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol.
Safonau Masnach	Yr Adran o fewn awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Swyddog Safonau Masnach (SSM)	Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol sydd, ymysg cyfrifoldebau eraill, yn gallu gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.
Awdurdod Unedol	Awdurdod lleol lle cyfunir yr holl swyddogaethau, er enghraifft Awdurdodau Cymreig a Bwrdeistrefi yn Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodaeth hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid.